Ein cyf: NB/mm
Eich cyf:
Dyddiad: 24 Hydref 2018

Gofynnwch am: Matthew Aplin
01656 644218
Matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**Drwy e-bost:**
**SeneddCyllid@cynulliad.cymru**

Annwyl Llyr

**Amcangyfrif Ariannol - 2019/20 - Llythyr o Gynrychioliad**

Diolch am eich llythyr wedi'i ddyddio 17 Hydref, 2018. Roeddwn yn ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am y craffu a'r diddordeb ehangach a ddangosoch yng ngwaith fy swyddfa pan gyfarfuom ar 11 Hydref. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i longyfarch chi ar gael eich ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gynharach heddiw.

Rwy'n hapus i ail-gyflwyno fy amcangyfrif gyda'r costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau ychwanegol. Fodd bynnag, hoffwn egluro'r rhesymwaith am beidio â gwneud hynny yn ein hamcangyfrif gwreiddiol. Ar 20 Gorffennaf eleni, ysgrifennodd Simon Thomas, cyn-gadeirydd y Pwyllgor at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gydag amserlen drafft ar gyfer camau 2-4 o'r Bil, gyda cham 4 cyflawn wedi'i drefnu ar gyfer ddydd Mercher 13 Mawrth a Chydsyniad Brenhinol i'w gyhoeddi.

Rwy'n berffaith hapus i ail-gynnwys y wybodaeth honno, ond nid wyf wedi derbyn unrhyw gyngor pellach ar y dyddiad tebygol ar gyfer Cydsyniad Brenhinol ac felly, ni allaf fod yn hyderus y bydd y pwerau ar gael i'm swyddfa am flwyddyn *lawn.*
O ran cyfeirio at gynnydd yn y Bloc Cymru, gallaf ostwng fy amcangyfrif i 1.67%, ond dim ond ar gost sylweddol i weithgarwch gwella ac ymchwilio fy swyddfa.

Yr wyf yn arbennig o gyndyn o wneud hynny oherwydd mae gan fy nhîm rheswm cryf i gredu bod yr amcangyfrif o 1.67% ar gyfer y twf Bloc Cymraeg y cyfeiriwyd ato gan Gomisiwn y Cynulliad yn anghywir ac yn seiliedig ar fethodoleg wallus.
Mae Comisiwn y Cynulliad wedi edrych ar Symudiadau DEL cynlluniedig yn y Bloc sydd wedi eu disodli gan ddau symudiad cyllideb yn 2017 a 2018 yn ogystal â Chyllidebau Atodol. Mae'r defnydd o DEL wedi'i gymhlethu gan gael gwared â threthi datganoledig - cymhariaeth fwy teg a syml yw Cyfanswm Gwariant a Reolir a gynyddodd o 3.9% y llynedd a rhagwelir y bydd yn cynyddu yn y gyllideb drafft 2019/20 o 5.8%.

Mae cymhariaeth o Gynigion Gyllideb Drafft Amlinellol Llywodraeth Cymru 2019/20 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, gyda'r gywerth ar gyfer y flwyddyn flaenorol, yn dangos bod y Cyfanswm Cyllideb [drafft] Cymru yn Nhabl 5.1 wedi tyfu o £17,681,422 ar gyfer 2018/19 i £19,054,484 ar gyfer 2019/20, sef cynydd o 7.8%.

Er gwaethaf hyn, rwy'n hapus i gyfyngu fy amcangyfrif i 3.8% ac awgrymu ein bod yn cytuno ar y ffordd gywir o symud ymlaen yn dilyn cyhoeddi symudiadau Bloc gan HMT yn dilyn y gyllideb.

Yn gywir

**Nick Bennett**
Ombwdsmon